

GRIFFITH, GEORGE (1601 - 1666), esgob Llanelwy o 1660 hyd 1666

Enw: George Griffith
Dyddiad geni: 1601
Dyddiad marw: 1666
Rhiant: Anne Griffith (née Pritchard)
Rhiant: Robert Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob Llanelwy
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Ganwyd 1601 yn y Penrhyn, Sir Gaernarfon (medd **T. F. Tout** yn y *D.N.B.*). Y gwir yw mai un o **Griffithiaid** Carreg Lwyd ym Môn ydoedd, un o geinciau ieuengaf y **Penrhyn**. Gyda'r teulu mwyaf eglwysyddol yn y tir - ei daid yn rheithor, ewythr iddo'n rheithor, dau o'i frodyr yn briod â merched i esgobion, un o'r brodyr hyn yn ganghellor esgobaeth Bangor yn ogystal â Llanelwy. Aeth i Ysgol Westminster ac i Rydychen, Christ Church; M.A. 1626, D.D. 1635. O dan John Owen, esgob Llanelwy, tad-yng-nghyfraith ei frawd **William**, daeth swydd wedi swydd i'w ran - caplan, canon, rheithor y Dref Newydd, erbyn 1633 ei gadael a dod yn rheithor Llanymynech a Llandrinio. Yng nghonfocasiwn 1640 dywedir ei fod wedi pwysleisio'r angen o gael argraffiad newydd o'r *Beibl Cymraeg*.

Yr oedd dyddiau cythryblus y rhyfeloedd cartref ar fin dod, a suddodd y profedigaethau i'w dyfnder isaf gyda Deddf Taenu yr Efengyl (1650-3). Dywaid **Tout** na throwyd George Griffith allan o Lanymynech; hanner y gwir yw hynny, cafodd ganiatâd i gadw Llanymynech ar yr amod iddo droi ei gefn ar Landrinio, canys yr oedd y Ddeddf honno yn gosod llaw farw ar ddal mwy nag un fywoliaeth. Yn bur fuan aeth yn ffræ wyllt rhwng y Doctor a'r Piwritan **Vavasor Powell**, dewr ei galon a phwerus ei lais, gŵr a wyddai am bob modfedd o fynydd-dir Maesyfed a gwlad wastad Trefaldwyn Isaf; cawsant ddadl gyhoeddus yn yr awyr agored yn y Capel Newydd; gwaith Griffith yno oedd amddiffyn gweddïau ar lyfr yn hytrach na gweddi o'r frest; yn wir, llwyddodd y ddau i redeg ar ôl ei gilydd i bedair congl dadleuaeth ar ffurfiau addoli a llywodraeth eglwysig. Yr oedd y ddwy ochr yn crio buddugoliaeth; cyhoeddodd plaid **Vavasor** bamffled yn rhoddi'r hanes, a phlaid y Doctor dri o bamffledau. Er mor ddygn yr amddiffynnai y safon Anglicanaidd, gadawyd iddo aros yn Llanymynech hyd yr Adferiad, ac aeth dipyn o ffordd i gydnabod y caredigrwydd hwn drwy gymeradwyo pregethwyr i sylw'r 'Triers' Piwritanaidd (rhyw Biwritanaidd go arwynebol oedd y rhan fwyaf o'r pregethwyr hyn).

Pan ddaeth yr Adferiad yr oedd gyda'r cyntaf i'w benodi'n esgob, esgob Llanelwy. Yn Nhy'r Arglwyddi yr oedd iddo ran yn saernïo Deddf Unffurfiaeth 1662, a gofalu bod *Llyfr y Weddi Gyffredin* yn dod allan yn ddianaf o'r dadleuon. Yn yr esgobaeth mynnodd gadw at reol yr esgob Owen fod pregethu Cymraeg i fod yn eglwys blwyf Llanelwy, ac nid oedd dim trugaredd ganddo at glerigwyr diog a drwgfucheddus; tu allan i'r esgobaeth, yn 1664, penodwyd ef (gydag esgob Llundain) i ddatrys dwy broblem astrus yn esgobaeth Tyddewi. Bu farw fis Tachwedd 1666, gan adael un dirgelwch go fawr heb ei egluro; pan ofynnwyd iddo gan yr archesgob Sheldon yn 1665 pa nifer o weinidogion a drowyd allan yn esgobaeth Llanelwy wedi'r Adferiad, dywedodd ar ei ben 'dim un,' pryd y cydnabyddir gan haneswyr o'r ddwy ochr fod yno amryw ohonynt.

Yn 1684, 18 mlynedd wedi ei farw, cyhoeddwyd yn Rhydychen waith o'i eiddo, *Plain Discourses on the Lord's Supper*, a'r flwyddyn 1685, yn Rhydychen eto, waith arall, *Gweddï'r Arglwydd wedi ei hegluro* o dan olygiaeth **William Foulkes**, rheithor Llanfyllin. Mae peth lle dros gredu fod ail argraffiad wedi ymddangos yn 1716, ond mwy o sicrwydd ynghylch argraffiad Caernarfon yn 1806, o dan nawdd y 'Bangor Tract Society.'

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 26

Calendar of State Papers, Domestic Series, 1636-7, 569

Llawysgrif Rawlinson yn Llyfrgell Bodlean, Rhydychen c. 261 (18) (reprint)

Lambeth MS 997, i, 66

Llawysgrif Tanner cxlvi, 2, 3

Llawysgrifau Dolben 302/89, 114, 304b/31-2, 305/19-

Lambeth MS 639 (303)

Y Cymmrodor, xxxviii (1927), 151-2, 168-9

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29882646

Wikidata: Q5539921

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Richards, T., (1953). GRIFFITH, GEORGE (1601 - 1666), esgob Llanelwy o 1660 hyd 1666. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-GEO-1601>

Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government